**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

05 Chwefror 2025

Annwyl Mark,

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am eich adroddiad ar Athrawon Cyflenwi yng Nghymru. Rwy'n gwerthfawrogi'r rôl bwysig y mae athrawon cyflenwi yn ei chwarae yn ein hysgolion ac yn croesawu'r cyfle i ystyried yr argymhellion yr ydych wedi'u darparu. Gweler ynghlwm ein hymateb i'r adroddiad. Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yr eiddoch yn gywir

Lynne Neagle

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 'Galw a Chyflenwi: Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon'

Rwyf am ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus am eu hadroddiad cynhwysfawr.

Mae'n bwysig nodi'n glir y bydd angen gweithio'n agos gyda CLlLC a'r Undebau mewn perthynas â sawl un o'r argymhellion. Rwy'n gobeithio bod yr ymatebion a ddarperir o ddefnydd ac o gymorth.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r argymhellion sydd ynddo.

# Cynnwys

**Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor ..... 3**

Argymhelliad 1 ..... 3

Argymhelliad 2 ..... 3

Argymhelliad 3 ..... 4

Argymhelliad 4 ..... 5

Argymhelliad 5 ..... 5

Argymhelliad 6 ..... 6

Argymhelliad 7 ..... 7

Argymhelliad 8 ..... 8

Argymhelliad 9 ..... 8

Argymhelliad 10 ..... 9

Argymhelliad 11 ..... 9

Argymhelliad 12 ..... 10

# Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor

## Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru fel mater o flaenoriaeth fynd i'r afael â'r diffyg monitro ac adrodd ar raddau absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth am resymau heblaw salwch.

Ymateb: Derbyn

O dan y canllawiau 'Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol', mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gasglu a rhannu data absenoldeb ar lefel unigolion ac ar lefel sefydliadau mewn perthynas â meincnod (gan gynnwys yr effaith ariannol), yn flynyddol, er mwyn cefnogi ysgolion a Llywodraeth Cymru i fonitro absenoldeb ymhlith y gweithlu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i archwilio'r ffordd orau o fonitro absenoldebau athrawon o'r ystafell ddosbarth fel rhan o ddatblygu Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 2

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ac asesu'n gyflym effaith yr holl gymhellion i helpu i recriwtio myfyrwyr i Addysg Gychwynnol i Athrawon, gan gynnwys cynllun Iaith Athrawon Yfory i sicrhau eu bod yn ddigonol ac yn gystadleuol, ac adrodd yn flynyddol ar eu heffaith tymor hwy.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg wedi ymrwymo i gytundeb rhannu data er mwyn adolygu'r cyfraddau a gadwyd ymhlith y rhai a gafodd ac na chafodd gymhelliant. Mae'r gwaith ar y prosiect hwn yn parhau. Bydd Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg yn adolygu llwyddiant y broses paru data, ac felly ddibynadwyedd y canlyniadau, cyn penderfynu a ddylid cytuno ar allbwn blynyddol; byddai goblygiadau ariannol parhaus i gynhyrchu adroddiadau blynyddol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwerthusiad o'r polisi sy'n cefnogi addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, a fydd yn cynnwys cwestiynau ymchwil penodol i'r defnydd o gymhellion Addysg Gychwynnol Athrawon.

Goblygiadau ariannol: Mae cyllid ar gyfer gwerthuso'r polisi sy'n cefnogi addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru a'r prosiect paru data ynghylch cymhellion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg wedi'i ddyrannu yn Llinell Wariant (BEL) Datblygu a Chefnogi Athrawon ar gyfer 2025-26. Caiff cyllid ar gyfer adroddiadau paru data yn y dyfodol ei ystyried unwaith y bydd dibynadwyedd y canlyniadau yn hysbys.

## Argymhelliad 3

*Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae costau rheoli'r contract yn cymharu â'r swm y mae'n ei gael drwy'r ffi o 0.5 y cant y mae'n ei chodi ar asiantaethau.*

Ymateb: Derbyn

Mae fframwaith asiantaethau athrawon cyflenwi yn un o raglen o ddeg ar hugain o gytundebau cydweithredol a osodir ar ran sector cyhoeddus Cymru. Nid oes modd gweld costau rheoli'r fframwaith unigol hwn felly.

Mae'r ad-daliad o'r cytundeb asiantaethau athrawon cyflenwi yn cynhyrchu tua £500,000 y flwyddyn, a chyfrifir bod cyfanswm cost rheoli contract y cytundeb oddeutu £280,000 y flwyddyn (gan ddefnyddio costau blynyddol 2024/25).

Mae'r ad-daliad o 0.5% a godir mewn perthynas â chytundeb asiantaethau athrawon cyflenwi Llywodraeth Cymru yn sylweddol is na'r ad-daliad o 1% o fewn fframwaith Athrawon Cyflenwi Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae gweithredu argymhellion adroddiadau pwyllgor ac archwilio blaenorol wedi cael effaith sylweddol ar dwf y fframwaith hwn ac, yn ei dro, yr ad-daliad a gafwyd. Yn fwyaf nodedig, mae cyflwyno'r gyfradd gyflog sylfaenol ar gyfer athrawon cyflenwi, a'r cynnydd blynyddol, ynghyd â'r ehangu o fodel un cyflenwr i fodel sawl cyflenwr wedi ychwanegu'n sylweddol at y gwariant ar y fframwaith, yn ogystal â'r dyletswyddau cysylltiedig o ran rheoli'r fframwaith.

Er bod yr ad-daliad sy'n deillio o'r cytundeb asiantaethau athrawon cyflenwi yn fwy na'r swm a amcangyfrifir ar gyfer rheoli'r contract, mae cyfanswm incwm yr ad-daliad gan gyflenwyr ar draws y rhaglen gyfan sy'n rheoli 30 o gytundebau cydweithredol yn cyfrif am oddeutu 50% yn unig o gyfanswm costau rheoli'r rhaglen. Caiff y gweddill ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 4

*Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i fonitro a deall y rhesymau pam nad yw rhai ysgolion yn dewis defnyddio'r fframwaith asiantaethau athrawon cyflenwi.*

Ymateb: Derbyn

Mae tîm Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru (WGCD) eisoes yn monitro'n flynyddol y gwariant ar y fframwaith o'i gymharu â'r gwariant nad yw ar y fframwaith. Pan nodir gwariant ar asiantaethau nad ydynt ar y fframwaith, mae WGCD yn ysgrifennu at yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am reoli'r ysgolion sy'n gwneud archebion gydag asiantaethau y tu allan i'r fframwaith i dynnu eu sylw at hyn. Mae tîm WGCD yn gofyn i'r awdurdodau lleol gasglu a rhannu adborth gan eu hysgolion ynghylch pam mae asiantaethau nad ydynt ar y fframwaith wedi cael eu defnyddio, a gwneud argymhellion i'w hysgolion ynghylch manteision defnyddio'r fframwaith sy'n cyd-fynd â'u prosesau rheoli lleol yn hyn o beth.

Nid oes gan WGCD y pŵer ar hyn o bryd i orfodi'r defnydd o unrhyw un o'u fframweithiau, ond drwy barhau i hyrwyddo manteision y fframwaith, rheoli'r contract yn gadarn a mynd ati i dynnu sylw at y gwariant nad yw ar y fframwaith ymhlith y rhai sy'n gosod cyfeiriad eu hysgolion, rydym wedi gweld y gwariant ar y fframwaith yn tyfu yn hyn o beth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bellach, mae 98% o'r gwariant yng Nghymru ar weithwyr dros dro mewn lleoliad addysg yn wariant sy'n mynd drwy asiantaethau addysgu a benodwyd i'r fframwaith.

Byddwn yn parhau â'r gweithgaredd a amlinellir uchod i gyflawni'r argymhelliad hwn, gan weithio ar y cyd â'r Gyfarwyddiaeth Addysg.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 5

*Dylai Llywodraeth Cymru roi trefniadau ar waith i roi sicrwydd bod athrawon cyflenwi, goruchwylwyr llanw a gweithwyr cymorth dysgu yn gweithio o fewn eu disgrifiadau rôl.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r penderfyniad ar ba rôl i'w dyrannu i aelod o staff asiantaeth ar ôl ei leoli mewn ysgol yn cael ei wneud gan yr ysgol ei hun. Mae heriau sylweddol i geisio gweithredu trefniadau cenedlaethol ar gyfer athrawon cyflenwi a goruchwylwyr llanw o ystyried yr angen i awdurdodau lleol weithredu'n annibynnol wrth ddod o hyd i staff addysgu, gan gynnwys athrawon cyflenwi. O dan y fframwaith

rheoleiddio a threfniadau rheoli ysgolion yn lleol, gall ysgolion a chyrff llywodraethu yng Nghymru ddod o hyd i staff fel y gwelant yn dda. Mae hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r math o yswiriant sydd ei angen. Mae gan Lywodraeth Cymru ganllawiau i gefnogi ysgolion wrth wneud y penderfyniadau hyn, ac i egluro sut y dylid ymgysylltu â staff cyflenwi a'u cefnogi. Mae'r canllawiau yn cadarnhau y dylai ysgolion gasglu a dadansoddi data ynghylch lefelau absenoldeb a gynlluniwyd ac nas cynlluniwyd, a'r costau llanw sy'n deillio o hynny. Dylai ysgolion fonitro'r defnydd a wneir o drefniadau cyflenwi a'r gost, a rhoi gwybod i lywodraethwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n barhaus â phartneriaid ynghylch materion yn ymwneud â chyflenwi.

Ar 13 Ionawr 2025, cyhoeddais fy ymrwymiad i weithio gyda phob partner i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn, byddwn yn gweithio gydag ysgolion a chyflogwyr er mwyn deall beth yn rhagor y gellir ei wneud ynghyd â phartneriaid i gefnogi'r argymhelliad hwn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 6

*Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n ofalus y modd y cymhwysir ffioedd asiantaethau, y cyfiawnhad a'r amrywiadau er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.*

**Ymateb:** Derbyn

Gall costau a ffioedd asiantaethau amrywio am nifer o resymau y tu hwnt i'n rheolaeth, a thros y blynyddoedd diwethaf mae'r costau, fel rheol, wedi cynyddu yn dilyn nifer o argymhellion sydd wedi'u gosod ar asiantaethau i gryfhau manyleb y fframwaith mewn meysydd fel gofynion diogelu a darparu hyfforddiant a chymorth i athrawon sydd newydd gymhwyso.

Cyn 2019, gweithredid y fframwaith ar sail model un cyflenwr a oedd yn fasnachol gystadleuol. Byddai cyflenwyr yn cystadlu ar sail pris (ymhlith metrigau eraill) i gael eu penodi i'r fframwaith. Fodd bynnag, o 2019, datblygwyd y model i gynnwys sylfaen gyflenwi lawer ehangach, ac i weithredu bron fel marc ansawdd ar gyfer y farchnad, gan sicrhau bod cymaint o'r gwariant â phosibl yn cael ei gyfeirio i'r fframwaith a bod modd gwella'r broses o reoli contractau'r farchnad.

O ganlyniad i hyn, yn hytrach na bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwerthuso ffioedd asiantaethau ar lefel fframwaith o safbwynt gwerth gorau, mae ysgolion bellach yn gwneud penderfyniadau gwerth gorau ar ba asiantaeth

i'w defnyddio ar gyfer pob archeb a wnânt, gan fod holl ffioedd asiantaethau ar gael iddynt.

O'n data rheoli contractau, credwn fod ysgolion yn ymgymryd â'r gwaith hwn hyd eithaf eu gallu, ac felly nad oes angen cymryd camau pellach. I ychwanegu rhywfaint o gyd-destun perthnasol, yn ystod 2023/24:

- dim ond 6.5% o gyfanswm gwariant y fframwaith oedd ar asiantaethau â ffi o dros £50
- o'r uchod, dim ond 2.6% o gyfanswm gwariant y fframwaith oedd ar asiantaethau â ffi o dros £55
- o'r uchod, dim ond 1.5% o gyfanswm gwariant y fframwaith oedd ar asiantaethau â ffi o dros £60
- roedd 70% o gyfanswm gwariant y fframwaith ar asiantaethau â ffi o lai na £40.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 7

*Dylai Llywodraeth Cymru gwblhau a chyhoeddi ei gwerthusiad o'r llwyfan archebu athrawon cyflenwi a nodi ei chynigion i roi hyn ar waith yn genedlaethol. Dylai hyn gynnwys asesiad o'r màs critigol o athrawon sydd eu hangen ar y llwyfan archebu, manylion unrhyw ystyriaeth a chanfyddiadau sy'n codi o'r asesiad cychwynnol o'r llwyfan a phrofiadau o'r cyflwyniad yn dilyn y trawsnewid i'r system hon gan Gyngor Sir Ynys Môn. Yn dilyn hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd.*

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

O dan y fframwaith rheoleiddio a threfniadau rheoli ysgolion yn lleol, gall ysgolion a chyrff llywodraethu ddod o hyd i staff fel y gwelant yn dda, naill ai drwy asiantaethau neu drwy ddefnyddio eu rhestrau cyflenwi eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio asiantaethau i ddod o hyd i athrawon cyflenwi oherwydd goblygiadau adnoddau a chyllideb.

Rydym wedi mynd ati'n raddol i gyflwyno'r Pwll Cyflenwi Cenedlaethol. Aeth y platfform, a ddarparwyd gan Teacher Booker, yn fyw yng Nghyngor Sir Ynys Môn ym mis Tachwedd 2023. Dewiswyd Ynys Môn i'w gyflwyno i ddechrau gan eu bod eisoes yn rhedeg rhestr gyflenwi ac yn gallu parhau i fod yn gyflogwr a rheoli cyfraniadau pensiwn.

Bydd swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y Pwll Cyflenwi Cenedlaethol maes o law.

Goblygiadau ariannol: Dim ar hyn o bryd.

## Argymhelliad 8

*Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mesurau llwyddiant tymor hwy clir er mwyn barnu'r cynnydd o ran gwella ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae gan ysgolion gylchoedd adolygu datblygiad perfformiad y mae'r safonau proffesiynol yn darparu cefndir ar eu cyfer i bob ymarferydd, gan gynnwys athrawon cyflenwi, i drafod perfformiad a thwf proffesiynol. Dylai'r broses hon arwain at ddatblygu taith ddysgu broffesiynol unigol pob ymarferydd. Cyfrifoldeb ysgolion yw gofalu bod hawl pob athro, gan gynnwys athrawon cyflenwi, i gyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael ei sicrhau.

Bydd y cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg yn ymgorffori ein gweledigaeth a'n gwerthoedd ar gyfer arweinwyr, athrawon a staff cymorth ar gyfer y dyfodol, gan gydnabod bod amrywiaeth o rolau pwysig ar draws gweithlu ysgolion a bod athrawon cyflenwi yn rhan hanfodol o fywyd ysgol. Fy nod o ran y cynllun yw sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n glir ar gyflawni a gwella ar ran ein gweithlu addysg cyfan.

Fel rhan o ddatblygu'r cynllun hwn ar gyfer y gweithlu, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ac ymarferwyr i archwilio sut y gellir cefnogi athrawon cyflenwi yn well.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 9

*Dylai Llywodraeth Cymru, ar ôl rhoi mesurau ar waith i ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus a chyfleoedd hyfforddi i athrawon cyflenwi a staff cyflenwi, sefydlu trefniadau monitro ystyrlon ar y nifer sy'n manteisio arnynt, ac adrodd ar lwyddiant y trefniadau hyn.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae gan staff cyflenwi hawl i gael mynediad at gymorth drwy amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol, ac amrywiaeth o rwydweithiau i'w helpu wrth addysgu ac i gefnogi eu gwaith.

Dylai pob ymarferydd gael ei yrru gan y gyfres gyffredinol o werthoedd ac ymagweddau sydd wedi'u cynnwys yn y safonau proffesiynol. Mae'r gwerthoedd a'r ymagweddau hyn yn ogystal â'r pum safon broffesiynol eu hunain yn ganolog i'r ffordd yr ydym am i'n holl ymarferwyr ddatblygu. Nodir yn y safonau proffesiynol ei bod yn ofynnol i ymarferwyr ymgymryd â sesiynau dysgu proffesiynol ar hyd eu gyrfa.

Fel rhan o'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, rydym am ddatblygu ymhellach weithwyr addysg proffesiynol sy'n ystyried eu dulliau, yn ymholi ac yn cydweithredu, a diwylliant o gyd-gyfrifoldeb mewn perthynas â dysgu proffesiynol pob athro, gan gynnwys athrawon cyflenwi.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i hyrwyddo ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i bob ymarferydd drwy'r Ardal Adnoddau Dysgu Proffesiynol ar Hwb. Mae adnoddau'r ystorfa hon ar gael i bob athro cyflenwi i gefnogi eu dysgu proffesiynol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n sefydlu Corff Cenedlaethol ar gyfer Cymorth Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth. Byddwn yn gofyn i'r Corff Cenedlaethol ddatblygu mecanwaith i fonitro nifer yr athrawon cyflenwi sy'n manteisio ar addysg broffesiynol, a bydd hwn yn cael ei gynnig yn genedlaethol.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 10

Nid yw wedi'i gynnwys yn adroddiad y Pwyllgor.

## Argymhelliad 11

*Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i adolygiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) ar gyflog ac amodau athrawon cyflenwi, gan gynnwys trefniadau pensiwn, cyn gynted â phosibl a phennu amserlen ar gyfer gwneud hynny yn y cyfamser.*

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn cydweithio'n agos â'r Fforwm Partneriaeth Cyflogau dros y misoedd nesaf er mwyn datblygu amserlen a chynllun gweithredu ar gyfer y materion allweddol y mae Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ac adroddiadau cysylltiedig wedi'u codi ynghylch cyflogau ac amodau, ac yn sicrhau ein bod yn glir ac yn dryloyw o ran yr amser a'r gwaith sydd eu hangen i symud ymlaen ar

hyn. Bydd yr argymhellion ar gyflogau ac amodau athrawon cyflenwi, gan gynnwys trefniadau pensiwn, yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau hyn.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 12

*Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau bod yr argymhellion perthnasol a gynigir ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir drwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion yn cael eu hadolygu i weld a ydynt yn gymwys i athrawon cyflenwi a gyflogir drwy asiantaethau. Yn dilyn hyn, dylai Llywodraeth Cymru osod amserlen ar gyfer gweithredu ac adrodd yn ôl ar gynnydd.*

Ymateb: Derbyn

Bydd tîm Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ledled Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl argymhellion a'r polisi perthnasol a gynigir ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir drwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion yn cael eu crynhoi o fewn fframwaith athrawon cyflenwi.

Goblygiadau ariannol: Dim